

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2001
## CYMRU

# Y CCH YNG NGHYMRU

## IONAWR – RHAGFYR 2001

Bu i'r achlysur i ddathlu 25 o flynyddoedd ers ymddangosiad Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 gyd-fynd â'r newidiadau mwyaf a mwyaf cadarnhaol o ran y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol y bu i ni eu gweld ym Mhrydain ers i'r ddeddf wreiddiol ddod i rym. Mae cyflwyno dyletswydd gyhoeddus newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gwneud atal gwahaniaethu hiliol mor bwysig ag iawn cyfreithiol. Croesawn yr ymrwymiad a ddangoswyd gan chwaraewyr allweddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), llywodraeth leol, addysg, iechyd a'r cyfryngau i roi cydraddoldeb hiliol wrth galon agenda wleidyddol a chymdeithasol Cymru.

Mae'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru bellach yn gwybod am y fframwaith ddeddfwriaethol sydd wedi ei chryfhau a sut y dylai eu helpu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn deg ac yn hygyrch, waeth bynnag beth yw eu cenedl, lliw neu darddiad ethnig neu genedlaethol. Gwnaed hyn yn bennaf drwy 'Beyond Rhetoric', ein cynhadledd lwyddiannus iawn yng Nghaerdydd i'r sector cyhoeddus.



BEVERLEY BERNARD
Aelod, Pwyllgor
CCH Cymru



CHERRY SHORT
Cadeirydd, Pwyllgor
CCH Cymru



RAY SINGH CBE
Aelod, Pwyllgor
CCH Cymru

Hoffwn ddiolch i'm cyd-gomisiynwyr ar y CCH a staff CCH yng Nghymru am eu holl waith caled drwy'r flwyddyn. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r llu o bobl a chyrff ledled Cymru sydd wedi gweithio gyda ni dros gymdeithas gyfiawn a gwell Cymru, yn arbennig y Prif Weinidog Rhodri Morgan; Edwina Hart, y gweinidog dros lywodraeth leol a chymunedau a chadeirydd y pwyllgor ar gyfle cyfartal; Jenny Randerson, y gweinidog, diwylliant; Jane Davidson, y gweinidog, addysg; Jane Hutt, y gweinidog iechyd; John Shortridge, yr ysgrifennydd parhaol, a staff cyfan gwasanaeth sifil CCC am eu cyngor a'u harweiniad parod.

Yn anffodus, dangosodd 2000 hefyd faint o waith sy'n dal heb ei wneud ym maes cydraddoldeb, hiliol. Roedd digwyddiadau erchyll 11 Medi a'r hyn a digwyddodd yn ei sgîl – ymosodiadau hiliol ledled Cymru (gan gynnwys yng Nghaernarfon yng Ngogledd Cymru) a welwyd gan y rhai a ddioddefodd o ganlyniad iddynt fel ymgais i dalu'n ôl am gamau terfysgwyr unigol – yn arswydus. Rhaid peidio â rhoi unrhyw le o gwbl i hiliaeth yng Nghymru.

Mae gennym yr hyn sy'n angenrheidiol i dderbyn yr her – deddf cysylltiadau hiliol gryfach a mwy cynhwysfawr. Mae gennym hefyd yr ewyllys wleidyddol ac ymrwymiad gwleidyddion, cyrff cyhoeddus a mwyafrif helaeth y cyhoedd yng Nghymru. Rwy'n hyderus y daw newid, yn gynt nag y byddem yn ei ddisgwyl.

**Cherry Short**
Cadeirydd, Pwyllgor CCH Cymru

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd y newid mwyaf yn y gyfraith cysylltiadau hiliol i awdurdodau cyhoeddus Cymru ers chwarter canrif. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig bellach yn cynnwys holl swyddogaethau'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus, ac mae'n rhoi i'r rhan fwyaf ohonynt ddyletswydd gyffredinol newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Bu i'r Ysgrifennydd Cartref hefyd gyhoeddi dyletswyddau penodol y gellir eu gorfodi ar gyfer y prif wasanaethau cyhoeddus yn Hydref 2001, i'w cynorthwyo i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol.

Pwrpas y newidiadau hyn yw sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn cael ei osod yn y 'prif lif' ac atal gwahaniaethu hiliol. Daeth Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 i rym ar 2 Ebrill 2001.

Ar 3 Rhagfyr, bu i ni lansio côd ymarfer statudol ynghylch y ddyletswydd newydd, a phedwar o ganllawiau eraill ar gyfer ymgynghori yn eu cylch.

Mae swyddogion CCH yng Nghymru wedi treulio llawer o'r flwyddyn yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyletswyddau newydd. Roedd yn hanfodol fod awdurdodau cyhoeddus, a'r bobl a wasanaethant, yn gwybod am y newidiadau, ac yn dechrau paratoi ar eu cyfer mewn da bryd. Bu i ni roi cyflwyniadau, seminarau a darlithoedd i awdurdodau cyhoeddus mewn digwyddiadau ar draws y wlad. Ymysg y rhain, roedd cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol ar gyfer swyddogion tân, cyflwyniad i fforwm ymgynghorol aml-asiantaethol ar hil Cyngor Torfaen; 'Capitol Congress' Cyngor Sir Caerdydd; a chyfarfod Ymddiriedolaeth Iechyd Gwent i ymgynghori â chymunedau lleiafrifol yng Nghasnewydd.

Bu i ni fanteisio ar bob cyfle, gan gynnwys ein haelodaeth o fyrddau, timau a gweithgorau, a cheisiadau oddi wrth gyrff cyhoeddus am gyngor, i bwysleisio pa mor bwysig yw'r dyletswyddau newydd. Ein neges i bawb oedd na allai awdurdodau cyhoeddus ddechrau paratoi yn rhy fuan ar gyfer y newidiadau, ac y dylent weithio cyhyd ag y bo hynny'n bosibl gydag asiantaethau eraill i sicrhau cysondeb a chydlyniad.


Mae Cadeirydd CCH Gurbux Singh yn croesawu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 fel cam hanesyddol. 'Mae Prydain heddiw' meddai 'yn symud i gêr newydd o ran cydraddoldeb hiliol'.




▲ Croesawodd, Gurbux Singh, Cadeirydd y CRE, y ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 newydd, fel digwyddiad hanesyddol. Dywed, 'Mae Prydain heddiw wedi symud yn agosach at gydraddoldeb hiliol.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bu i ni weithio'n agos gydag aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), ac roeddem yn ddiolchgar i weinidogion am eu parodrwydd i gefnogi ein gwaith neu i siarad yn ein digwyddiadau. Bu i ni hefyd fynychu cyfarfodydd o bwyllgor CCC ar gydraddoldeb a chyfle cyfartal sydd wedi addo cefnogaeth lawn i ni i weithredu'r côd pan ddaw i rym ar 31 Mai 2002.





CRE

Mynychodd cynrychiolwyr o lawer o gyrff cyhoeddus gynhadledd 'Beyond Rhetoric' CCH yng Nghaerdydd i ddysgu am y ddyletswydd gyhoeddus statudol newydd. Rhoddodd y Prif Weinidog y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan (ar y dde) yr araith gyweirnod. Ar y chwith: Comisiynydd CCG Ray Singh gyda'r Dr Mashuq Ally ar y dde iddo.

Ym Mawrth, sefydlodd CCC Ford Gron Sector Cyhoeddus Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb. Ei hamcan yw annog uwch swyddogion cyhoeddus i rannu eu profiadau ac i drafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Rydym yn gweithio gyda'r ysgrifennydd parhaol, Jon Shortridge, i ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer gweithlu gweithredu, sy'n cynnwys swyddogion cydraddoldeb o'r sector cyhoeddus, i weithredu penderfyniadau'r ford gron.


Ym mis Gorffennaf, mewn partneriaeth gyda CCC bu i ni drefnu cynhadledd – 'Beyond Rhetoric' – yng Nghaerdydd. Roedd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ynghylch y ddyletswydd newydd ledled Prydain ac fe'i hanerchwyd gan ein Cadeirydd, Gurbux Singh. Denodd tua 250 o gynrychiolwyr o'r pedwar heddlu ac o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhoddodd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, yr araith gyweirnod. Roedd siaradwyr eraill yn cynnwys ysgrifennydd parhaol CCC, a'n comisiynwyr dros Gymru, Cherry Short a Ray Singh.

Mae CCC yn ymwybodol iawn fod yn rhaid i'w ymrwymiad i gydraddoldeb hiliol ddechrau gartref. Ym mis Mawrth, bu i'r pwyllgor ar gyfle cyfartal ddadlau ynghylch 'Lifting Every Voice', adroddiad ar gydraddoldeb yn y Cynulliad a oedd wedi ei gomisiynu o ganlyniad i gytundeb partneriaeth rhwng CCC a'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Bu i'r adroddiad, a ysgrifennwyd gan Roger McKenzie, cyn swyddog cydraddoldeb PCS, argymell newid polisïau ac arferion y CCC yn llwyr, i ymdrin â than-gynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig o fewn CCC. Sefydlwyd grŵp gweithredu, o dan gadeiryddiaeth McKenzie i gynhyrchu a gwireddu cynllun gweithredu. Ymgynghorwyd â ni yn rheolaidd yn ystod pob cam o'r gwaith.

## Llywodraeth leol

Yn ystod mis Medi, lansiwyd y Safon Cydraddoldeb ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Abertawe. Bydd y safon yn disodli safon wreiddiol arloesol y CCH, Mae Cydraddoldeb Hiliol yn Gyfystyr ag Ansawdd. Am y tro cyntaf, bydd awdurdodau lleol yn gallu monitro ac asesu eu holl waith ynghylch cydraddoldeb, gan ddefnyddio un safon ar gyfer hil, rhyw ac anabledd. Bu i'r digwyddiad ddwyn ynghyd aelodau a phrif swyddogion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a bu i ni ddefnyddio'r cyfle i roi cyflwyniad ar oblygiadau'r Ddeddf ddiwygiedig i gynghorau a chynghorwyr.

Bu i Edwina Hart, gweinidog



MEWN Swansea

Mynychodd hanner cant o wragedd gynhadledd 'Dialogue,' y bu i ni ei threfnu i drafod y prif faterion sy'n effeithio ar wragedd o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Roedd Edwina Hart, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a Geta Aldridge, Cadeirydd MEWN Cymru, ymysg y siaradwyr.

dros lywodraeth leol, gefnogi argymhelliad oddi wrth y tri chomisiwn cydraddoldeb (y CCH, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chomisiwn Hawliau'r Anabl) a 'Syniad' i sefydlu uned cydraddoldebau llywodraeth leol. Bu i ni awgrymu y dylai'r uned, y dylid ei sefydlu am dair blynedd yn y lle cyntaf, fod yn gyfrifol am waith ar y ddyletswydd gyhoeddus yn ogystal â'r safon cydraddoldeb newydd ar gyfer llywodraeth leol.

## Iechyd

Cawsom nifer o drafodaethau gyda chyfarwyddiaeth iechyd CCC ac uned cydraddoldebau y GIG ynghylch goblygiadau'r ddeddf ddiwygiedig. Cytunodd y ddau i'n cynorthwyo i hyrwyddo'r côd ymarfer statudol ynghylch y ddyletswydd gyhoeddus.

## Addysg

Roedd Prifysgol Morgannwg yn un o lu o brifysgolion y bu i ni eu cyfarfod yn ystod y flwyddyn i drafod dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf ddiwygiedig. Bu i ni hefyd drafod cynllun cydraddoldeb hiliol y brifysgol, a chyfarfod â swyddogion o'r ysgol gofal cymdeithasol i drafod cynllun gweithredu i recriwtio mwy o fyfyrwyr a staff o leiafrifoedd ethnig.

Gwnaed argraff arnom gan y cynnydd yr oedd Sefydliad Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd wedi ei wneud ym maes cydraddoldeb hiliol. Roedd y brifysgol eisoes wedi llunio cynllun gweithredu cadarn yn unol â'r ddeddf ddiwygiedig, ac wedi hyfforddi ei staff yn ei gylch. Roedd y brifysgol hefyd wedi monitro a recriwtio a dadansoddi'r data.

Bydd cyflwyno'r ddyletswydd gyhoeddus yn dibynnu'n hanfodol ar y sylw y bydd cyrff arolygu cyhoeddus yn ei roi i gydraddoldeb hiliol yn ystod eu harchwiliadau. Bu i ni weithio'n agos gyda ESTYN, yr arolygaeth dros addysg, ar arolwg o'i fframwaith, i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn cael ei gynnwys o fewn ei safonau perfformiad i gyd.

Ym mis Rhagfyr, lansiodd y gweinidog dros addysg, Jane Davidson, Cyfleoedd Cyfartal yn y Cwricwlwm, sy'n ganllaw i athrawon. Roedd y llawlyfr yn gynnyrch trafodaethau estynedig rhwng ACCAC (yr awdurdod cymwysterau, cwricwlwm ac asesu yng Nghymru) a'r tri chomisiwn cydraddoldeb. Bu i ni adolygu'r cwricwlwm a nodi meysydd a fyddai'n elwa o fwy o ddealltwriaeth o ddiwylliannau a hanesion eraill.

## Cyfiawnder troseddol

Roedd y diwygiadau i'r Ddeddf yn ymateb i argymhelliad 11 adroddiad ymchwiliad Stephen Lawrence, y dylai grym llawn deddfwriaeth cysylltiadau hiliol fod yn berthnasol i'r heddlu a chyrff cyhoeddus eraill. Ers 2 Ebrill 2001 (pan ddaeth y Ddeddf i rym), mae asiantaethau cyfiawnder troseddol, a oedd yn flaenorol yn cael eu trin gan y Ddeddf fel cyflogwyr yn unig, bellach yn cael eu trin gan y Ddeddf yn eu holl swyddogaethau.

Ym mis Gorffennaf, bu i ni annerch cynhadledd a drefnwyd gan Heddlu Gwent, sydd wedi arwyddo'r Her Arweiniad, i lansio ei bolisi cyfleoedd cyfartal a'i strategaeth. Roedd y strategaeth yn seiliedig ar ddarganfyddiadau dau adroddiad asesu gan ymgynghorwyr allanol. Byddwn yn cynghori'r heddlu ynghylch ei gynllun cydraddoldeb hiliol.




Tim Brett

▲ Dathliadau degfed pen-blwydd Gwobrau Hil yn y Cyfryngau CCH, a lansio categori RIMA newydd yn 2002 – Arweiniad mewn Chwaraeon. Trefnwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, gyda BBC Cymru, S4C a HTV. Roedd Nigel Walker, pennaeth newydd BBC Wales Sport, a'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas ymysg y gwesteion.

Bu i ni hefyd sefydlu Bord Gron y Cyfryngau ar faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb y llynedd i drafod cydraddoldeb hiliol yn y gwaith o gynhyrchu rhaglenni ac wrth recriwtio.

## Yr acen anghywir

Mae Lionel Kelleway, cyflwynydd radio profiadol i BBC Wales wedi ennill ei achos ynghylch gwahaniaethu yn erbyn ei gyflogwr. Bu i'r tribiwnlys cyflogaeth gytuno'n unfrydol â honiad Kelleway fod y BBC wedi ei ddisodli o'u rhaglenni oherwydd ei acen Seisnig. Bu iddynt ddarganfod fod y BBC a Daniel Jones, cyn brif weithredwr BBC Radio Wales wedi gwahaniaethu yn erbyn Lionel Kelleway oherwydd ei darddiad cenedlaethol.

Roedd y BBC wedi bod yn bwriadu dadlau nad oes gan y Cymry a'r Saeson darddiadau cenedlaethol ar wahân, ond bu iddynt ollwng yr amddiffyniad hwn pan fu i achos Souster v BBC Scotland ddiweddu gyda'r Llys Sesiynau yn dod i'r penderfyniad fod gan yr Albanwyr a'r Saeson darddiadau cenedlaethol ar wahân.

Roedd achos Kelleway yn canolbwyntio ar ddatganiad gan Mr Jones yn ei brîff comisiynu ar gyfer rhaglenni hanes naturiol a oedd yn galw am 'lais Cymreig cryf'. Cymerodd Mr Kelleway a'i gynhyrchydd, Paul Evans, fod hyn yn golygu acenion Cymreig. Cytunodd y Tribiwnlys. Apeliwyd yn erbyn yr achos.

Bu i ni weithio hefyd gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru i adolygu a monitro cynlluniau gweithredu i Heddlu Gogledd Cymru, a thrafod materion recriwtio gyda'r prif swyddog prawf ar gyfer Dyfed Powys.

Yn dilyn ymchwiliad ffurfiol CCH cangen Croydon i'r Gwasanaeth Erlyn Troseddol, bu i ni gyfarfod pennaeth Gwasanaeth Erlyn Troseddol De Cymru i drafod recriwtio a chadw staff o blith lleiafrifoedd ethnig. Gofynnwyd i ni hefyd roi sylwadau ar gynlluniau gweithredu Gwasanaeth Erlyn Troseddol Dyfed Powys.

### Gweithio gyda busnes

Treuliwyd y rhan fwyaf o'n hamser a'n hadnoddau y llynedd gyda gwaith sy'n deillio o ddiwygiadau i'r Ddeddf. Ond bu i ni barhau i ymdrin â cheisiadau o gyrff yn y sector preifat, yn amrywio o ymholiadau ynghylch categorïau ethnig newydd y cyfrifiad hyd at geisiadau am gymorth gyda drafftio polisïau cyfleoedd cyfartal.

Bu i ni groesawu penodi swyddog arbennig i ymdrin â'r gwaith cynyddol o fewn y sector preifat yng Nghymru.

Roeddem yn falch o glywed bod ein cais ar y cyd gydag Awdurdod Datblygu Cymru yn llwyddiannus. Bu i ni sicrhau £1.2 miliwn ar gyfer prosiect i annog busnesau lleiafrifoedd ethnig i ddechrau. Roedd hyn yn rhan o gais £6.5 miliwn o dan 'Amcan' 1 ar gyfer grwpiau a dan-gynrychiolir. Bydd 'Ethnic Business Support Programme' yn rheoli'r prosiect.

### Her Arweiniad

Yng ngoleuni'r dyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, ataliwyd ein gwaith am y tro ar yr Her Arweiniad yn 2001, i weld sut roedd y cynllun yn gweithio a'i ailfodelu. Ond bu i ni barhau i weithio gyda rhai sy'n gweithio ar y cynllun ar hyn o bryd a hefyd bu i ni groesawu cefnogwyr newydd. Ym mis Medi, arwyddodd y cynghorydd Noel Crowley, arweinydd Cyngor Nedd Port Talbot a Ken Sawyers, y prif weithredwr, i ymuno â'r her.

### Yr Iaith Gymraeg

Mae swyddogaeth yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn parhau i greu dadl boeth. Ym mis Tachwedd, gwahoddwyd ni i gyflwyno ein barn i bwyllgor diwylliant CCC, fel rhan o'i arolwg o'r iaith Gymraeg.

Bu i ni hefyd ddefnyddio gwahoddiad i annerch seminar ar leiafrifoedd ethnig yng nghynhadledd Plaid Cymru i egluro ein barn y dylai'r iaith Gymraeg gael ei hystyried fel iaith swyddogol.

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, canolbwyntiodd y cyfryngau sylw ar sylwadau a wnaed am 'effeithiau negyddol' mewnlifiad gan rai nad oeddynt yn siarad Cymraeg i 'gadarnleoedd y Gymraeg'. Bu i ni dderbyn deg o gwynion am hyn, gan gynnwys dau hysbysiad fod y rhai oedd yn galw yn bwriadu gwneud cwynion ffurfiol ynghylch yr 'iaith amhriodol' a ddefnyddiwyd i gefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Bu i'r ddadl gysylltiedig ynghylch tai yn y Gymru wledig arwain at rai sylwadau 'ymfflamychol' a 'diangen' ond nid oes gennym y grym i ystyried cwynion o'r fath. Yn hytrach, bu i ni gyhoeddi datganiadau i'r wasg, yn gofyn am osteg ac yn galw am ddadl resymol ynghylch problem wirioneddol.

## Gweithredu cyfreithiol

Yn ystod 2001, cysylltodd 288 o aelodau'r cyhoedd â ni am gyngor ynghylch eu hawliau o dan y Ddeddf. O blith y rhain, arweiniodd 116 (40%) at geisiadau ffurfiol am gymorth cyfreithiol oddi wrth y CCH. Roedd 34 o'r rhain (29%) yn gysylltiedig â chyflogaeth ac 82 (71%) â materion heb fod yn ymwneud â chyflogaeth, fel addysg, tai, heddlu, nwyddau a gwasanaethau.

Roedd ein pwyslais drwy gydol y flwyddyn ar ddatrys anghydfod heb droi at gamau cyfreithiol. Mewn un setliad, derbyniodd yr ymgeisydd £50,000 o iawndal.



Eisteddfod Genedaethol Cymru

▲ Bu i sylwadau gan y wasg yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ynghylch 'effeithiau negyddol' mewnlifiad gan siaradwyr nad oeddynt yn siarad Cymraeg i gadarnleoedd y Gymraeg arwain at gwynion i'r CCH.

**Partneriaethau**

Bu i ni weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Hawliau Cyflogaeth yng Nghymru, sy'n dwyn ynghyd ymarferwyr y gyfraith cyflogaeth o gwmnïau lleol y gyfraith, asiantaethau cyngor a sefydliadau addysg uwch. Mae'r fforwm yn cynnig cyfle amhrisiadwy i rannu gwybodaeth a dysgu am arfer da.

Yn 2001, bu i ni ymuno â swyddfeydd rhanbarthol y Comisiwn Hawliau Anabledd a Chomisiwn Cyfleoedd Cyfartal Cymru i gyllido ymchwil ar achosion tribiwnlys cyflogaeth yng Nghymru, ac ar ragoriaethau a gwendidau gwasanaethau cynghori. Gwneir yr ymchwil gan academyddion ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

**Strategaeth gyfreithiol**

Yn 2002, rydym yn cynllunio rhaglen o seminarau, gweithdai a chynadleddau ar waith cynghori mewn achosion gwahaniaethu hiliol ar gyfer cyrff yr ydym yn gweithio â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau cynghori, undebau llafur a chyrff gwirfoddol. Yr amcan yw gosod y sylfeini ar gyfer mwy o waith ar y cyd a chydweithrediad ynghylch achosion o wahaniaethu hiliol.

## Cynghorau cydraddoldeb hiliol

Mae bygythiadau ac ymosodiadau hiliol wedi cynyddu ym Mhrydain ers yr ymosodiadau yn Efrog Newydd a Washington ar Fedi 11, a bomio Afghanistan yn dilyn hynny. Yng Nghymru, digwyddodd mwyafrif yr ymosodiadau yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Anelwyd llawer ohonynt at wragedd a phlant, y bu'n rhaid iddynt ddioddef poeri, cael eu galw'n wahanol enwau a chamdriniaeth lafar gyffredinol. Clywsom hefyd adroddiadau am bost maleisus dienw ac ymosodiadau ar fosgiau. Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn yn ddifrifol iawn, fel y digwyddiad yng Nghaernarfon ble bu i dri dyn, a oedd yn rhan o dyrfa feddw, anelu eu dicter at bedwar o ddynion Bangladeshi, ddeng diwrnod ar ôl yr ymosodiadau ar Ganolfan Fasnach y Byd. Cafodd y tri dyn eu dedfrydu yn dilyn hynny i 16 mis o garchar.

Cyfarfu'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan â rhyw 40 o arweinwyr cymunedau a ffydd i egluro sefyllfa CCC ac i ofyn beth y gallai ei wneud i leihau tensiynau. Cyfarfu Edwina Hart, y gweinidog dros lywodraeth leol â ni a chynrychiolwyr y Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru i ddarganfod ffyrdd y gallai CCC weithio'n agosach gyda chyrff sy'n gyfrifol am hyrwyddo cysylltiadau hiliol da yng Nghymru.

Mae Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu cyllido gan y CCH ac awdurdodau lleol




Swyddogion CCH Cymru yn trafod ACTION - rhaglen hyfforddi gynhwysfawr newydd ar ddatblygiadau cyfreithiol a sgiliau rheoli.

ar y cyd. Yn 2001, bu i ni gyfarfod prif swyddogion cynghorau i drafod ffyrdd o wella cefnogaeth i waith cydraddoldeb hiliol yn lleol. Bu i ni gytuno i sefydlu paneli ar y cyd ar gyfer pob un o'r prif feysydd gwasanaeth, ac ar gyfer monitro perfformiad.

Bu i ni adnewyddu ein cyllid ar gyfer dwy swydd allweddol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, sydd wedi cynhyrchu gwybodaeth amhrisiadwy am wendidau gwasanaethau i gymunedau o leiafrifoedd ethnig a rhanbarthol.

## CCH Cymru

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd derbyniol mewn adnoddau i'r CCH, i fonitro a gorfodi'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig. Elwodd CCH Cymru yn sylweddol ar hyn, a bu i ni ehangu o bedwar aelod staff ar ddechrau'r flwyddyn i 14 ar y diwedd. Bu i ni lwyddo hefyd i symud i swyddfa fwy yn ystod y flwyddyn.

Rydym bellach yn gweithio yn y timau canlynol:

- Grŵp monitro yr Iaith Gymraeg – i fonitro ein dyletswyddau o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg.
- Fforwm gyfreithiol ddilynol – i weithio gydag ymatebwyr mewn achosion o wahaniaethu hiliol i wella eu polisïau a'u harfer.
- Grŵp dyletswydd gyhoeddus – i gydlynu gwaith ar y ddyletswydd newydd.
- Grŵp trawsbynciol cyllid Ewropeaidd – i gydlynu ein gwaith ar gyllid strwythurol Ewropeaidd yn y sector cyhoeddus a phreifat, ac i greu cysylltiadau gyda chymunedau lleol.
- Grwpiau cyfeirio – mae gan bob maes polisi grŵp cyfeirio ymgynghorol, sy'n cynnwys arbenigwyr mewn llywodraeth leol, addysg, iechyd, cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol.

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Gorffennaf 2002 ISBN 185442 452 1